Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

**CYNGHORYDD FFERMIO CYNALIADWY**
**SWYDD DDISGRIFIAD**

**Lleoliad:** Gweithio hybrid: Yn y swyddfa NEU gweithio o gartref, gyda chyfleusterau swyddfa ar gael ym Mangor, Gwynedd neu Aberduna, Sir Ddinbych.

Mae hon yn swydd amser llawn, tymor penodol tan fis Mawrth 2029 (cyfnod prawf 3 mis), gyda phosibilrwydd o estyniad.

**Yn atebol i: Rheolwr Rhaglen Galwad**

## DIBEN CYFFREDINOL Y SWYDD

- Cynyddu'r ddarpariaeth o gyngor ac arweiniad annibynnol ar arferion rheoli tir cynaliadwy ar ffermydd a choedwigoedd ledled Gogledd Cymru
- Meithrin perthynas waith hirdymor, gadarnhaol gyda ffermwyr ledled Gogledd Cymru, a'u cynorthwyo i ymuno â Chynllun Ffermio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru a chyrchu grantiau
- Codi proffil gwasanaeth Cynghori Ffermydd Galwad a hyrwyddo ei ystod o wasanaethau

## PRIF GYFRIFOLDEBAU

- Ymateb i ymholiadau gan ffermwyr a choedwigwyr ar faterion rheoli tir (drwy sianeli'r Ymddiriedolaeth Natur a Cyswllt Ffermio)
- Mynd ati'n rhagweithiol i greu cyfleoedd busnes newydd gyda busnesau ffermio a choedwigaeth er mwyn sicrhau gwaith cynghori yn y dyfodol
- Rhwydweithio gyda chysylltiadau yn y diwydiant ffermydd a choedwigaeth (e.e. sefydliadau partner, undebau ffermio)
- Cadw gwybodaeth gyfredol am y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'r Gweithredoedd Cyffredinol
- Cadw gwybodaeth gyfredol am ddeddfwriaeth berthnasol Llywodraeth Cymru a strategaeth yr Ymddiriedolaeth Natur
- Cyfrannu at ddarparu hyfforddiant a digwyddiadau arddangos ar y fferm
- Cynrychioli Galwad mewn sioeau a digwyddiadau amaethyddol rhanbarthol a chenedlaethol
- Cyfrannu at gyflawni prosiectau strategol (e.e. mewn tirweddau dynodedig)
- Cyfrannu cynnwys i wefan a sianeli cyfryngau cymdeithasol Galwad
- Cynhyrchu adroddiadau technegol a diweddaru cofnodion ymgysylltu â ffermwyr ar gronfa ddata CRM/GIS
- Mynychu cyfarfodydd tîm a chysylltu â chynghorwyr rheoli tir eraill yr Ymddiriedolaeth Natur
- Darparu adroddiadau misol a logiau amser
- Ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus lle bo angen

Er mwyn i'r sefydliad weithio'n effeithiol, efallai y bydd angen i chi gynorthwyo gyda meysydd gwaith eraill ac felly, dylech fod yn barod i ymgymryd â dyletswyddau eraill sy'n briodol i'r swydd, ac unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill sydd eu hangen.

Mae'r holl staff yn llysgenhadon i'r sefydliad yn fewnol ac yn allanol a disgwylir iddynt weithredu mewn ffordd broffesiynol bob amser. Mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â rheolau, polisïau a gweithdrefnau sefydliadol fel y nodir yn y llawlyfr staff, mabwysiadu arferion gwaith sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd, gosod a chynnal safonau personol uchel o ran effeithlonrwydd a gofal cwsmeriaid a meithrin diwylliant 'gallu gwneud' yn seiliedig ar berchnogaeth, menter, gwaith tîm a chyfnewid gwybodaeth.

**TEITL SWYDD**
**MANYLEB Y PERSON**

| Cymwyseddau allweddol | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| Meddwl strategol | | X |
| Y gallu i wrando ar anghenion a dymuniadau'r cwsmer ac ymateb mewn ffordd ddiplomyddol | X | |
| Y gallu i ddeall gwybodaeth gymhleth, a'i chyfleu'n gryno ac yn ddiddorol i gynulleidfa nad yw'n arbenigol | | X |
| Y gallu i flaenoriaethu llwyth gwaith | X | |
| Profiad | | |
| Darparu cyngor a chefnogaeth i ffermwyr a thirfeddianwyr | X | |
| Cynnal asesiadau iechyd pridd, cynlluniau rheoli maetholion neu gynlluniau fferm gyfan | | X |
| Cynnal arolygon rhywogaethau neu gynefinoedd (e.e. cam 1/UKHAB) | | X |
| Ymroddiad ac ymrwymiad i gadwraeth natur | X | |
| Adeiladu a rheoli perthnasoedd | X | |
| Cyfathrebu (e.e. ysgrifennu erthyglau, cynnwys gwefan ac ati) | | X |
| Gwybodaeth a sgiliau | | |
| Gradd mewn amaethyddiaeth, rheolaeth amgylcheddol, gwyddor amgylcheddol neu gynaliadwyedd | X | |
| Sgiliau technegol cryf ym maes ffermio (e.e. gwyddor anifeiliaid, rheoli da byw, asesu pridd neu gynllunio'r broses o reoli maetholion) | X | |
| Gwybodaeth ymarferol am Iechyd a Diogelwch a'r ffordd mae'n cael ei chymhwyso yn y rôl hon | | X |
| Sgiliau TG a rheoli data cryf gan gynnwys GIS, Microsoft Word/Excel/Outlook/Powerpoint | X | |
| Sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid cryf | X | |
| Gwybodaeth am gynlluniau amaeth-amgylcheddol Cymru a chynlluniau gwarant ffermydd | | X |

| | | |
|---|---|---|
| Gwybodaeth am rywogaethau a/neu gynefinoedd blaenoriaeth o ran cadwraeth yng Nghymru. | | X |
| Cymhwyster FACTS a/neu BASIS | | X |
| Sgiliau siarad cyhoeddus/cyflwyno da | | X |
| Gallu Cymraeg | | X |
| Rhinweddau Personol | | |
| Person hawdd mynd ato ac yn gyfathrebwr da | X | |
| Chwaraewr tîm | X | |
| Yn herio'r status quo yn rhagweithiol i ddod o hyd i ffyrdd newydd o wneud pethau, gan chwilio am arferion da | | X |
| Y gallu i ddylanwadu | | X |
| Dull proffesiynol | X | |
| Datryswr problemau | X | |